# MENTRO

## Mawrth – Mai 2018

Mae Mentro yn fenter sydd wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w cynorthwyo i gyflawni eu nod.

**CEFNOGI** MENTRAU AR Y CYD
**SUPPORTING** JOINT VENTURES

Gall gamau allweddol y **broses Mentro** gynnwys...

- Paru
- Trosglwyddo Gwybodaeth
- Mentora a Hwyluso
- Cynllunio Busnes
- Arweiniad Cyfreithiol

## Sgôr RAG

■ **Coch: Dan y targed** ■ **Oren: Bron â chyrraedd y targed** ■ **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn**

| **Gwyrdd** | Prosiect a digwyddiadau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed |
|---|---|

**346** DATGANIAD O DDIDDORDEB WEDI CAEL EU CYFLWYNO ERS DECHRAU'R RHAGLEN MENTRO

**284** O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL


**28,998** ERW O DIR WEDI COFRESTRU

**115** O GEISWYR YN CHWILIO AM GYFLE

**69** O DDARPARWYR YN CYNNIG CYFLE

**100** WEDI CANFOD PARTNER

**I annog mwy o Ddarparwyr i ymuno â'r cynllun Mentro, defnyddiwyd dull gwahanol ym mis Mai pan gafodd proffiliau Ceiswyr dienw eu hanfon at y Darparwyr.**





Cymhareb Ceiswyr a Darparwyr (heb gynnwys y rheiny sydd wedi canfod partner)

■ Darparwyr ■ Ceiswyr


## Cyfleoedd Presennol


| Lleoliad | Maint y Daliad (hectar) | Sector | Rhif Cyfeirnod Mentro |
|---|---|---|---|
| Y Trallwng | 152 | Bîff a Defaid | 222 |
| Caerdydd | 2-120 | Defaid (potensial ar gyfer mentrau eraill hefyd) | 259 |
| Castell Newydd Emlyn | 68 | Llaeth | 290 |
| Y Drenewydd | 102 | Bîff a Defaid | 229 |
| Llandysul | 185 | Llaeth | 157 |
| Castell Newydd Emlyn | 29 | Bîff a Defaid | 324 |
| Llandysul | 92 | Bîff a Defaid | 126 |
| Conwy | 47 | Llaeth | 340 |
| Caerfyrddin | 40 | Defaid | 105 |
| Caerfyrddin | 36 | Bîff a Defaid | 244 |
| Llanfyllin | 29 | Coedwigaeth | 220 |
| Caerfyrddin | 185 | Llaeth | 121 |
| Hwlffordd | 24 | Garddwriaeth | 87 |
| Y Trallwng | 325 | Defaid | 124 |
| Aberystwyth / Machynlleth | 108 | Bîff a Defaid | 268 |
| Abergele | 100 | Bîff a Defaid | 189 |
| Y Fenni | 77 | Bîff a Defaid | 169 |
| Y Gelli Gandryll | 60 | Garddwriaeth, Bîff a Defaid | 169 |
| Wrecsam | 202 | Llaeth | 276 |
| Tyddewi | 1.2 | Garddwriaeth | 239 |
| Llangadog | 38 | Defaid | 47 |

## Statws




## Sectorau








Mae **16 partneriaeth** ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaethau cynghori ac mae **9 menter ar y cyd newydd** wedi cael eu sefydlu.

### Astudiaeth Achos

Sut lwyddodd gweithiwr fferm ifanc i ddatrys argyfwng olyniaeth ar fferm ucheldir




Ym mis Mai cyhoeddodd y Farmers Weekly erthygl ar Lee Pritchard a Lorraine Howells, un o fentrau ar y cyd llwyddiannus y rhaglen. Gan nad oedd gan Lorraine unrhyw deulu â diddordeb mewn ffermio, roedd hi'n benderfynol o sicrhau y byddai'r fferm yn cael ei gadael mewn dwylo saff yn ogystal â rhoi cyfle i ffermwr ifanc a bu'r rhaglen Mentro yn cefnogi'r ddau i gyflawni hyn. Ymunodd Lee, sydd wedi gweithio ar y fferm ers ei fod yn 16 mlwydd oed, â'r busnes fel partner ieuaf. Derbyniodd y pâr gynllun busnes newydd ac arweiniad cyfreithiol i sefydlu cytundeb addas, oll wedi'i ariannu gan y cynllun Mentro.

Cliciwch yma i ddarllen yr erthygl.

### Gofid yn troi'n obaith i ffermwr o Geredigion



Cyfle Mentro arall a gafodd sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar yw Egan Carlisle, darparwr o Gastell Newydd Emlyn. Cymrodd mab Mr Carsilsie ei fywyd llynedd ar ôl brwydro gyda phroblemau iechyd meddwl. Gwerthodd Mr Carlisle y fuches laeth yn dilyn marwolaeth ei fab, ac mae bellach yn chwilio am ffermwr ifanc arall i gymryd y cyfle i redeg ei fferm 160 erw. Yn awyddus i gymryd cam yn ôl, mae Mr Carslise wedi troi at y rhaglen Mentro er mwyn dod o hyd i Geisiwr posib ac mae'n gobeithio cael rhywun mewn lle erbyn mis Medi.

### Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar lein:

**Facebook**

Pleser yw hi i weld ein cynllun Mentro ar waith ac yn gweithio'n llwyddiannus ac effeithiol i Lee Pritchard a Lorraine Howells. Dyma linc i ddarllen am eu profiad ymhellach.

Os oes diddordeb gyda chi yn y cynllun hwn, neu am ragor o wybodaeth, ewch draw i'n gwefan: http://bit.ly/2yj0hoG

Pobl a Gyrhaeddwyd – **800**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu – **26**
Cliciau – **208**

